

BBC



# EIN BBC, EIN DYFODOL



# EIN BBC, EIN DYFODOL

## Dweud eich dweud

Mae'r BBC yn perthyn i bob un ohonom ni. Mae hynny'n golygu y gall pob un ohonom fynegi barn am ei ddyfodol.

Eleni, gwnaethom ofyn i chi fynegi barn am beth mae'r BBC yn ei wneud yn dda, beth y gallem ei wneud yn well a beth yr hoffech i ni ganolbwyntio arno mewn blynyddoedd i ddod.

Rhannodd

**872,701**

ohonoch eich barn, sy'n ffigur anhygoel. Mae'n ymateb eithriadol. Rydym wedi gwrando, ac mae wedi rhoi darlun pwerus i ni o'r hyn y mae pobl ledled y DU am ei gael a'r hyn sydd ei angen arnynt gan y BBC.

Nawr byddwn yn cymryd yr hyn a nodwyd gennych a'i ddefnyddio i lywio dyfodol y BBC.

## Pam nawr?

Mae hon yn adeg bwysig i ddyfodol y BBC. Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn penderfynu sut beth fydd y BBC y tu hwnt i 2027 a'r ffordd orau y dylem wasanaethu ein cynulleidfaoedd.

Gan fod y BBC yn cael ei ariannu gan y cyhoedd, bydd llywodraeth y dydd yn adolygu bodolaeth y BBC bob rhyw ddeg mlynedd. Mae'r broses honno yn dechrau nawr a bydd yn ysgogi trafodaeth fawr ar rôl hirdymor y BBC a'i heffaith ar gyfer y DU.

Bydd canfyddiadau 'Ein BBC, Ein Dyfodol' yn helpu i lywio'r drafodaeth hon. Y cyhoedd sy'n berchen ar y BBC, ac mae'n hanfodol bod eich lleisiau'n cael eu clywed.

## Yr hyn y gwnaethoch ei ddweud

Gwnaethoch ddweud am yr hyn rydych yn ei werthfawrogi am y BBC, beth y dylem ganolbwyntio arno yn y dyfodol a ble y dylem wella yn eich barn chi.

Gwnaethoch ddweud beth rydych am i'r BBC ei gynnig i chi a'ch teulu. Gwnaethoch rannu eich barn ar y rôl y gall y BBC ei chwarae ar gyfer y DU. A gwnaethoch ein herio am y math o sefydliad y mae angen i ni fod.

Yn ogystal â'r canfyddiadau a gaiff eu crynhoi yma, gallwch archwilio'r holl ganlyniadau'n fanylach ar ein gwefan.





# BETH YR HOFFECH I'R BBC FOD

## Cenhadaeth y BBC

Mae'r BBC wedi cael cenhadaeth unigryw erioed: hysbysu, addysgu a diddanu.

Mae
**83%**
ohonoch yn dweud ei bod yn bwysig i'r genhadaeth honno barhau.

**O'r 872,701 o ymatebwyr:**

Dywedodd **83%** ei bod yn bwysig bod y BBC yn parhau i Hysbysu, Addysgu a Diddanu yn y dyfodol

**9%** dibwys

*Lle nad yw'r canrannau a roddwyd yn adio i 100, roedd gweddill yr ymatebwyr wedi ymateb "Y naill na'r llall" neu "Ddim yn gwybod".*

## Beth ddylai'r BBC sefyll drosto

Rydych yn chwilio am BBC sy'n cyflawni ar gyfer ein cymdeithas yn y byd heddiw sy'n newid yn gyflym. Ceir cefnogaeth gref dros BBC sy'n ceisio canfod gwirionedd heb unrhyw agenda, sy'n cefnogi'r prosesau adrodd straeon a'r cynnwys cartref gorau o bob cwr o'r DU ac sy'n dod â phobl ynghyd.

**O'r 872,701 o ymatebwyr:**

**CEISIO CANFOD GWIRIONEDD HEB AGENDA**




Dywedodd **93%** ei fod yn bwysig

**3%** dibwys

**CEFNOGI'R PROSESAU ADROSS STRAEON CARTREF GORAU**



Dywedodd **85%** ei fod yn bwysig

**6%** dibwys

**DOD Â PHOBL YNGHYD**



Dywedodd **75%** ei fod yn bwysig

**10%** dibwys

*Lle nad yw'r canrannau a roddwyd yn adio i 100, roedd gweddill yr ymatebwyr wedi ymateb "Y naill na'r llall" neu "Ddim yn gwybod".*

# PA FATH O SEFYDLIAD DDYLAI'R BBC FOD

## Beth sy'n bwysig

Gwnaethoch anfon neges glir am y math o sefydliad rydych am i ni fod yn y dyfodol.

### O'r 872,701 o ymatebwyr:

**Annibynnol** ar y llywodraeth ar y pryd
**91% pwysig** 5% dibwys

Darparu **gwasanaeth cyhoeddus** gwerthfawr
**82% pwysig** 11% dibwys

Cynnig gwasanaethau **digidol o ansawdd uchel**
**80% pwysig** 10% dibwys

Cynnig **rhywbeth i bawb**
**78% pwysig** 12% dibwys

**Adlewyrchu** pobl ar draws **y DU** a gwahanol rannau o'r DU
**76% pwysig** 11% dibwys

Ased i'r DU **ledled y byd**
**76% pwysig** 14% dibwys

*Lle nad yw'r canrannau a roddwyd yn adio i 100, roedd gweddill yr ymatebwyr wedi ymateb "Y naill na'r llall" neu "Ddim yn gwybod".*

## Sut rydym yn gwneud nawr

Mae mwyafrif helaeth ohonoch yn dweud ein bod eisoes yn gwneud yn dda mewn rhai o'r meysydd sy'n bwysig i chi, fel cynnig gwasanaethau digidol o ansawdd uchel a darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr.



### O'r 872,701 o ymatebwyr:

**Annibynnol** ar y llywodraeth ar y pryd
**43% effeithiol** 38% aneffeithiol

Darparu **gwasanaeth cyhoeddus** gwerthfawr
**64% effeithiol** 26% aneffeithiol

Cynnig gwasanaethau **digidol o ansawdd uchel**
**73% effeithiol** 10% aneffeithiol

Cynnig **rhywbeth i bawb**
**59% effeithiol** 24% aneffeithiol

**Adlewyrchu** pobl ar draws **y DU** a gwahanol rannau o'r DU
**51% effeithiol** 24% aneffeithiol

Ased i'r DU **ledled y byd**
**57% effeithiol** 21% aneffeithiol

*Lle nad yw'r canrannau a roddwyd yn adio i 100, roedd gweddill yr ymatebwyr wedi ymateb "Y naill na'r llall" neu "Ddim yn gwybod".*

# MEYSYDD Y MAE ANGEN MYND I'R AFAEL Â NHW

Mewn rhai meysydd ceir bylchau clir rhwng pa mor dda rydym yn gwneud nawr yn eich barn chi a pha mor bwysig yw hyn i chi ar gyfer y dyfodol.

**Er enghraifft:**

Mae

**51%**

ohonoch yn dweud bod y BBC yn effeithiol wrth adlewyrchu gwahanol rannau o'r DU a bywydau'r bobl sy'n byw yno – y mae

**76%**

ohonoch yn dweud ei fod yn bwysig.

Mae

**43%**

ohonoch yn dweud bod y BBC yn effeithiol o ran bod yn annibynnol o'r llywodraeth ar y pryd – y mae

**91%**


ohonoch yn dweud ei fod yn bwysig.

Bydd angen gweithio ar y bylchau hyn a mynd i'r afael â nhw fel blaenoriaeth wrth i ddyfodol y BBC gael ei drafod ac wrth i ni gynllunio sut i wasanaethu'r cyhoedd yn well.



## Y bwlch rhwng pa mor effeithiol yw'r BBC ym mhob maes nawr o gymharu â pha mor bwysig ydyw ar gyfer y dyfodol, ym marn ymatebwyr

### O'r 872,701 o ymatebwyr:



# BETH YR HOFFECH I'R BBC EI WNEUD YN Y DYFODOL

Pan ddaw i'n rhaglenni a'n cynnwys, mae'n amlwg eich bod yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth yn arlwy'r BBC.

Yn y dyfodol, mae'r rhan fwyaf ohonoch am i'r BBC ddarparu mwy neu'r un faint â nawr.

Yn benodol, mae mwy na 40% ohonoch yn dweud eich bod am gael mwy o **ddrama** a **rhaglenni dogfen**, ac mae mwy na 30% am gael mwy o **chwaraeon** a **chomedi ac adloniant**. Ar gyfer **newyddion**, mae 67% ohonoch am gael yr un faint â nawr yn y dyfodol.

Ar gyfer rhaglenni a chynnwys i **blant**, dywedodd nifer fawr ohonoch nad ydych yn gwybod a ydych am gael mwy, llai neu'r un faint. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan y rhaglenni hyn gynulleidfa darged glir ac nad ydynt i bawb yn ôl eu diffiniad.

Pan edrychwn ar yr ymatebion ymysg y rhai sydd eisoes yn defnyddio pob math o gynnwys, mae'r niferoedd sydd am gael mwy yn cynyddu – yn enwedig ar gyfer rhaglenni a chynnwys i **blant**. A **chwaraeon** yw'r genre lle mae'r gyfran fwyaf ohonoch yn dweud eich bod am gael mwy.

### DRAMA
43% mwy
38% yr un faint
12% llai



### RHAGLENNI DOGFEN
42% mwy
45% yr un faint
8% llai



### CHWARAEON
32% mwy
29% yr un faint
26% llai



ALLAN O DDEFNYDDWYR CYNNWYS CHWARAEON
52% mwy
36% yr un faint
9% llai

### COMEDI AC ADLONIANT
31% mwy
42% yr un faint
19% llai



### CYNNWYS AR GYFER EICH RHAN CHI O'R DU AC AMDANI
25% mwy
52% yr un faint
10% llai



### FFEITHIOL DIDDORDEB CYFFREDINOL
24% mwy
49% yr un faint
21% less



### CERDDORIAETH
22% mwy
50% yr un faint
14% llai



### NEWYDDION
15% mwy
67% yr un faint
13% llai



### PLANT
10% mwy
36% yr un faint
10% llai



ALLAN O DDEFNYDDWYR CYNNWYS PLANT
29% mwy
63% yr un faint
3% llai

*Lle nad yw'r canrannau a roddwyd yn adio i 100, roedd gweddill yr ymatebwyr wedi ymateb "Ddim yn gwybod".*

# BETH YR HOFFECH I NI EI GYNNIG NEU EI WELLA

Gwnaethom ofyn i chi roi eich barn ar unrhyw beth arall sy'n bwysig i chi neu eich teulu y gallem ei gynnig neu ei wella yn y dyfodol.

Gwnaethoch ymateb gyda mwy na hanner miliwn o sylwadau, gan gwmpasu'r ystod lawn o safbwyntiau ar bob agwedd ar yr hyn a wnawn.

Mae eich holl ymatebion yn amhrisiadwy. Byddant yn ein helpu i sicrhau ein bod yn llywio dyfodol y BBC i ddiwallu eich anghenion.

Byddwn yn parhau i weithio drwyddynt yn fanwl ond rydym wedi nodi'r prif bynciau y gwnaethoch ganolbwyntio arnynt yn eich adborth.



## O'r 872,701 o ymatebwyr:

Rhoddodd **28%** farn ar y canlynol:
**Rhaglenni, cynnwys a gwasanaethau ar-lein** gan gynnwys safbwyntiau ar genres penodol (e.e. newyddion, chwaraeon, adloniant, drama a chynnwys ar gyfer gwahanol rannau o'r DU) a gwasanaethau (e.e. cynnyrch digidol y BBC); ansawdd cyffredinol neu amrywiaeth allbwn y BBC; a chydbwysedd y rhaglenni gwreiddiol yn erbyn ailddarllediadau.

Rhoddodd **25%** farn ar y canlynol:
**Didueddrwydd a rhagfarn**
gan gynnwys pryderon ynghylch rhagfarn a galwadau am fwy o gydbwysedd, ac adborth ar bwysigrwydd didueddrwydd.

Rhoddodd **17%** farn ar y canlynol:
**Ffi a chyllid y drwydded deledu**
gan gynnwys safbwyntiau ar y drwydded deledu; galwadau am fodel cyllid amgen; a sylwadau ar gost ffi'r drwydded deledu a'i gwerth am arian.

Rhoddodd **16%** farn ar y canlynol:
**Rhedeg y BBC fel sefydliad**
gan gynnwys sylwadau am faterion dadleuol sy'n gysylltiedig â'r BBC; pwysigrwydd bod y BBC yn annibynnol; cyflogau; a sylwadau yn cefnogi'r BBC fel sefydliad.

Rhoddodd **11%** farn ar y canlynol:
**Amrywiaeth, cynrychiolaeth a chynhwysiant**
gan gynnwys sylwadau ar gywirdeb gwleidyddol; pryderon ynghylch cydbwysedd cynrychiolaeth rhwng grwpiau cynulleidfa gwahanol, gyda galwadau i fod yn llai amrywiol ar y sgrin ynghyd â galwadau i fod yn fwy amrywiol; ac awydd am fwy o gynrychiolaeth o wahanol rannau o'r DU y tu allan i Lundain.

Rhoddodd **9%** farn ar y canlynol:
**Rôl y BBC o ran cywirdeb a gwirio ffeithiau**
gan gynnwys mynd i'r afael â chamwybodaeth ac adborth ar wasanaethau gwirio ffeithiau'r BBC.

*Efallai fod ymatebwyr wedi cyfeirio at fwy nag un pwnc ym mhob sylw. Felly, mae'n bosibl bod y cyfansymiau yn adio i fwy na 100.*





# BETH Y BYDDWN YN EI WNEUD NAWR

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n mynd drwy'r hyn y gwnaethoch ei ddweud yn fanwl.

Rydym yn ystyried y ffordd orau o ymateb i'ch adborth ar ddidueddrwydd a rhedeg y BBC. Rydym yn gweithio drwy eich sylwadau a'r gwelliannau rydych am eu gweld ar gyfer rhaglenni, cynnwys a gwasanaethau'r BBC wrth i ni ystyried beth i'w gynnig i'n cynulleidfaoedd yn y dyfodol.

Mae'n amlwg bod cefnogaeth gref i genhadaeth sefydlu'r BBC i hysbysu, addysgu a diddanu'r DU gyfan. Ni fydd ein hymrwymiad craidd i wasanaethau'r cyhoedd yn y DU yn newid.

Ond rydym hefyd yn gweithio ar gynlluniau newydd a fydd yn ein helpu i ymateb i'ch adborth a chyflawni mwy i gynulleidfaoedd ac i'r DU mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym yn archwilio nifer o gwestiynau i roi mwy o werth i chi a'ch teulu yn y dyfodol.



**Sut y gallwn wneud y BBC yn fwy atebol** i'r cyhoedd ac yn fwy ymatebol i'ch dymuniadau a'ch anghenion?

**Ble y gallwn fuddsoddi mwy ledled y DU** a chefnogi twf economaidd a swyddi drwy gomisiynu a gwneud mwy o raglenni a chynnwys ledled y DU?

**Beth yn fwy y gallwn ei wneud i wrthwynebu twyllwybodaeth** a chefnogi newyddion diduedd a gwybodaeth ddibynadwy gartref a ledled y byd?

**Faint yn fwy y gallwn ei wneud i gefnogi** arlwy a gwasanaethau newyddion mwy lleol ledled y DU?

**Sut y gallwn ddefnyddio potensial deallusrwydd artiffisial mewn modd diogel a dibynadwy** i helpu plant i ddysgu ac i helpu'r genhedlaeth nesaf?

**Sut y gallwn helpu i sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl** wrth i'r DU symud yn llwyr i ddyfodol digidol?

# BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Byddwn yn gweithio ar ein cynlluniau dros y misoedd i ddod. Byddwn hefyd yn eu trafod â'r llywodraeth, a fydd, yn y pen draw, yn gwneud y penderfyniad ar ffocws a chyllid cyffredinol y BBC ar gyfer y dyfodol, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd.

Mae angen moderneiddio a diwygio ffi'r drwydded, felly byddwn yn parhau i fynd ati i archwilio pob opsiwn a all wneud ein model cyllid yn fwy teg, yn fwy modern ac yn fwy cynaliadwy.

Yn fwy na dim, byddwn yn parhau i wrando arnoch chi, ein cynulleidfa. Rydym am sicrhau ein bod ar y llwybr cywir, yn enwedig mewn perthynas â materion allweddol fel annibyniaeth a pha mor dda rydym yn adlewyrchu bywydau pawb yn y DU. Ac rydym am glywed mwy gan bobl ifanc fel y genhedlaeth nesaf o gynulleidfaoedd y BBC.

Daliwch ati i lywio dyfodol eich BBC a diolch am ddweud eich dweud.







